**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Julie,

Trefniadau cyllido Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol

Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 yr wythnos nesaf. Cyn ei chyhoeddi, hoffem nodi ein disgwyliad y bydd cynnydd yng nghyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru ('CNC') o 2021-22.

Rhwng ei sefydlu yn 2013 a 2020, mae cyllid CNC wedi gostwng 35% mewn termau real. Roedd effaith hyn ar allu CNC i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau yn effeithiol yn destun pryder parhaus i'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd. Mae ein gwaith diweddar ar flaenoriaethau'r Chweched Senedd yn rhoi arwydd clir bod rhanddeiliaid o bob sector yn rhannu'r pryder hwn.

Nodwn fod Natural England wedi derbyn cynnydd sylweddol gwerth £63 miliwn yn ei chyllideb ar gyfer 2021-22 yn dilyn Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU. Mae'r Chweched Senedd yn cyd-daro â chyfnod tyngedfennol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Disgwylir i Gyfoeth Naturiol Cymru fod ar flaen y gad o ran gweithredu i ymateb i'r heriau hyn. Rhaid bod ganddo adnoddau digonol i wneud hyn.

Credwn fod dechrau'r Chweched Senedd yn gyfle delfrydol i Lywodraeth Cymru wyrdroi'r duedd o dorri cyllid CNC. Gobeithiwn weld hyn yn cael ei wneud yn y gyllideb ddrafft sydd ar ddod.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg./ We welcome correspondence in Welsh or English.